Ymweliadau hunandywysedig yn RSPB Ynys Lawd

Mae RSPB Ynys Lawd ar arfordir gogledd-orllewin Ynys Môn yn cynnig mynediad am ddim i grwpiau ysgol dan arweiniad athrawon sy'n ymweld â'r warchodfa. **Rhaid trefnu eich ymweliad ymlaen llaw drwy'r ffurflen ar ein gwefan**. Mae'r telerau ac amodau ynghyd â'r manylion llawn i'w gweld yma.

Mae Ymweliadau Ysgol Hunandywysedig ag Ynys Lawd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Mae croeso i grwpiau o hyd at **30** disgybl rhwng **10.00 am a 3.30pm**. **Rydyn ni'n argymell yn gryf eich bod yn ymweld â'r warchodfa cyn eich ymweliad**. Ewch i Warchodfa Natur Ynys Lawd, Ynys Môn i gael gwybod mwy am y cyfleusterau sydd ar gael yn RSPB Ynys Lawd.

Cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer ymweliadau ysgol hunandywysedig.

Cyfleusterau	Gwybodaeth ychwanegol
Lle parcio i Fysiau	Ni allwn sicrhau lle parcio i fysiau. Nid oes man gollwng ffurfiol ond gallwn ddarparu ar gyfer gollwng teithwyr y tu allan i'r ganolfan ymwelwyr pan mae ysgol wedi trefnu ymweliad. Rydyn ni'n argymell eich bod yn parcio yng Nghaergybi ac yna'n cytuno ar amser codi ar ddiwedd yr ymweliad. (///devalued.glimmers.talkers)
Toiledau	Mae toiledau cyhoeddus yn y Ganolfan Ymwelwyr. Dylai disgyblion gael eu goruchwylio bob amser a dylid gadael y cyfleusterau yn yr un cyflwr ag yr oeddent pan gyrhaeddoch chi. Rydyn ni'n argymell bod **disgyblion yn cael eu trefnu mewn grwpiau bach** wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn gyda dim mwy na 10 o blant yn ciwio ar unrhyw adeg benodol.
Lle i gael cinio	Nid oes cyfleusterau cinio yn Ynys Lawd
Ardaloedd yn y warchodfa sy'n addas ar gyfer grwpiau ysgol	• **Cadwch at y llwybrau troed** o amgylch y safle sydd ag arwyddion arnynt. Dylid paratoi asesiad risg trylwyr ar gyfer y llwybr o amgylch y safle. • Llwybr y Pâl yw'r llwybr mwyaf addas i ysgolion ei ddefnyddio. Mae hwn yn dilyn y ffordd yn rhannol ac yn mynd heibio i fan gwylio hardd sydd hefyd ar ymyl y clogwyn. Mae'n 0.75 milltir o hyd. • Mae Llwybr Gwas y Neidr yn fwy egnïol ac yn 1 filltir o hyd. • **Dim ond grwpiau bach** sy'n gallu mynd i mewn i Dŵr Elin. • Siop y Warchodfa - **trefnwch fynediad gyda thîm y safle wrth gyrraedd a threfnwch eich dosbarth yn grwpiau bach.** • Caffi - Mae croeso i chi archebu o'r caffi mewn **grwpiau bach**. Rydyn ni'n argymell bod disgyblion yn cael eu trefnu mewn grwpiau bach wrth archebu yn y caffi. Sylwch **nad oes cyfleusterau dan** do ar gyfer grwpiau ysgol. Map newydd o'r safle ar gael
Signal ffôn	Mae rhywfaint o signal ffôn symudol yn RSPB Ynys Lawd

Dangoswch eich ffurflen cadarnhau ymweliad yn y ganolfan ymwelwyr pan fyddwch yn cyrraedd.

Diolch am fynd â'ch holl sbwriel adref gyda chi.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RPSB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, yr Alban rhif SC037654

Self-led visits at RSPB South Stack

RSPB South Stack on the northwestern coast of Ynys Mon offers free access to teacher led school groups visiting the reserve. **The visit must be prebooked via the form on our website.** Full details and terms and conditions can be found here.

Self-led School Visits to South Stack are available Monday to Friday during term time. Groups of up to **30** pupils are welcomed between **10.00 am and 3.30pm**. **A pre-visit to the reserve is strongly recommended**. Please go to South Stack Nature Reserve, Anglesey to find out more about the facilities at RSPB South Stack.

Additional Facilities available for self-led school visits

Facilities	Additional information
Coach Parking	We cannot guarantee coach parking. There is no formal drop-off point but we can accommodate drop off outside the visitor centre when we have a school booking. We recommend parking in Holyhead and then agreeing a pickup time at the end of the visit. (///devalued.glimmers.talkers)
Toilets	The public toilets are located at the Visitor Hub. Pupils should be supervised at all times and the facilities should be left in the condition you found them in. We recommend that **pupils are organised in small groups** when accessing these facilities with no more than 10 children queueing at any one time.
Lunch space	There are no lunch facilities at South Stack
Areas of the reserve suitable for school groups	• Please **stick to footpaths** around the site which are signposted. A thorough risk assessment should be prepared for the route around the site. • The Puffin route is the most suitable path for school use. This partly follows the road and passes a beautiful viewing point which is also on the cliff edge. It's 0.75 miles. • The Dragonfly trail is more strenuous is 1 mile. • A folly "Ellins Tower" can be accessed by **small groups only**. • Reserve shop – **please arrange access with the site team on arrival and organise your class into small groups.** • Café - You are welcome to order from the café in **small groups**. We recommend that pupils are organised in small groups if ordering in the café. Please note there are **no indoor facilities** for school groups. New site map available
Phone reception	RSPB South Stack has some mobile phone reception

Please present your booking confirmation at the visitor centre when you arrive.

Thank you for taking all your litter home with you.

The Royal Society for the Protection of Birds (RSPB) is a registered charity: England and Wales no. 207076, Scotland no. SC037654